

AGENDA

Bydd y Sesiwn yn dechrau am 2.00pm

Eitem 1

Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog

Cliciwch [yma](#) i weld y cwestiynau

Eitem 2

Datganiad Busnes: Y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad

Cliciwch [yma](#) am y Datganiad Busnes Drafft

Eitem 3

Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd (ESTYN)

NDM1050 - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol

1. Yn nodi Adroddiad Blynyddol 2000-01 Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru Ei Mawrhydi a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Chwefror 2002;
2. Yn cydnabod y cyfraniad a wnaed gan yr Adroddiad Blynyddol tuag at gyflawni strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg a dysgu gydol oes a nodwyd yn Y Wlad sy'n Dysgu."

Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:

Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol:

(1)+(5)+(6)

(2)+(3)+(4)

Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)

Dileu pwynt 2 a rhoi'r pwynt newydd yn ei le :

Yn cydnabod pwysigrwydd y dystiolaeth sydd yn yr Adroddiad Blynyddol o ran asesu pa mor effeithiol yw strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg a dysgu gydol oes.

Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd:

Yn cydnabod cyfraniad sylweddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi a'i staff.

Gwelliant 3 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd:

Yn cydnabod gwerth a pherthnasedd arolygiadau mewn ysgolion o ran nodi pa welliannau y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt.

Gwelliant 4 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd:

Yn nodi'r hyn a gyflawnwyd gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi a'i staff o safbwynt cynnal safonau trwy enwi ysgolion llwyddiannus yn ogystal â rhai aflwyddiannus.

Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y cynnydd a wnaed gan ysgolion ledled Cymru ond yn nodi â siom nad yw llawer o ddyheadau Llywodraeth Cymru o ran themâu allweddol cynhwysiant cymdeithasol, cyfle cyfartal a chynaliadwyedd yn cael eu gwireddu ar hyn o bryd, yn ôl y dystiolaeth a geir yn yr Adroddiad Blynyddol.

Gwelliant 6 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Addysg yn amlinellu sut y bwriedir mynd i'r afael â'r gwendidau cyson a nodir yn yr Adroddiad, gan gynnwys:

a) Sgiliau allweddol mewn TGCh;

b) Sut y cyflwynir y Cwricwlwm Cymreig mewn perthynas â gwyddoniaeth, mathemateg, a dylunio a thechnoleg;

c) Cyflwr adeiladau ysgolion ac unedau arbennig, yn benodol Unedau Cyfeirio Disgyblion.

Gellir gweld "Y Wlad sy'n Dysgu" ar y Rhyngrwyd gan ddefnyddio'r cyswllt hwn:

<http://www.wales.gov.uk/subieducationtraining/content/learningcountry/tlc-contents-e.htm> Ni

fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr

Cliciwch [yma](#) i weld Adroddiad Blynyddol 2000-01 Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng

Nghymru Ei Mawrhydi - Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr

Bydd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad yn cynnig cynnig trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.10 i ohirio'r eitem nesaf tan 21 Mai 2002.

Eitem 4

Dadl ar Ddatblygu Cynaliadwy

NDM1051 - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn croesawu'r cynnydd sylweddol sy'n cael ei wneud tuag at ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru, ac yn cydnabod cyfraniad pwysig partneriaid y Cynulliad a mudiadau o'r tu allan.
2. Yn cydnabod pa mor bwysig yw sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn dod yn rhan ganolog o waith Llywodraeth Cynulliad Cymru fel a nodwyd yn "Penderfynu Byw'n Wahanol" a "Sut Ydym yn Dysgu Byw'n Wahanol";
3. Yn cefnogi cyfraniad positif o du Cymru i Uwch-gynhadledd y Byd ar Ddatblygu Cynaliadwy yn Johannesburg ddiwedd Awst/ddechrau Medi; ac
4. Yn galw ar i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd baratoi cynllun gweithredu datblygu cynaliadwy diwygiedig a mwy diweddar."

Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:

Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol:

(1)+(3)

(2)+(4)+(5)+(6)+(7)

Gwelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)

Dileu pwynt 1.

Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)

Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 1:

Onid yn cydnabod mai trwy welliannau ymarferol i'r amgylchedd ac i ansawdd bywydau pobl y bydd ymrwymiad y Llywodraeth i Ddatblygu Cynaliadwy yn cael ei farnu.

Gwelliant 3 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)

Ym Mhwynt 2:

Dileu "fel y nodwyd yn "Penderfynu Byw'n Wahanol" a "Sut Ydym yn Dysgu Byw'n Wahanol".

Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)

Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 2:

Onid yn cydnabod bod llawer iawn eto i'w wneud o ran datblygu Strategaeth ar Wastraff lle ceir rhagdybiaeth yn y polisiau cynllunio yn erbyn datblygu mwy o losgyddion a safleoedd tirlenwi.

Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)

Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 3 ar ôl 'Medi':

ac yn croesawu'r ffaith bod Prif Weinidog Cymru wedi cyhoeddi mai ef fydd yn cynrychioli Cymru yn Uwchgynhadledd y Byd.

Gwelliant 6 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cefnogi'r syniad o gynnwys dangosydd sy'n nodi faint o bobl ifanc sy'n aros yn eu cymunedau.

Gwelliant 7 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn datgan y dylai'r newid yn yr hinsawdd fod yn ystyriaeth o bwys yng Nghynllun y Cynulliad Cenedlaethol ac yn galw am ddynodi creu economi carbon isel yn un o amcanion allweddol polisi datblygu economaidd yng Nghymru.

Gosodwyd "Penderfynu Byw'n Wahanol" a "Sut Ydym yn Dysgu Byw'n Wahanol" yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mai 2000.

Cliciwch [yma](#) i weld "Penderfynu Byw'n Wahanol" - Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr

Cliciwch [yma](#) i weld "Sut Ydym yn Dysgu Byw'n Wahanol" -

Eitem 5

Dadl wedi'i henwebu gan y Blaid Geidwadol

NDM1049 - Mae'r Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn cydnabod bod yn rhaid defnyddio unrhyw gynnydd yn y dyfodol yng ngwariant y GIG yng Nghymru yn effeithiol i ddarparu gwasanaeth o safon fyd-eang sy'n ymateb i anghenion cleifion.
2. Yn credu y byddai GIG Cymru yn elwa ar sector annibynnol a phreifat sy'n tyfu ac sy'n cael eu defnyddio mewn partneriaeth i gyflwyno gwasanaethau'r GIG.
3. Yn cydnabod bod yn rhaid i gleifion gael eu trin o fewn amser rhesymol os yw trethdalwyr yn mynd i barhau i gefnogi mwy o wariant cyhoeddus ar y GIG.
4. Yn credu bod yn rhaid rhoi blaenoriaeth i gynyddu nifer yr ymgynghorwyr ysbyty, meddygon teulu, nirsys, therapyddion a staff allweddol eraill ar y llinell flaen os yw amseroedd aros yn mynd i gael eu cwtogi.
5. Yn galw am fwy o wariant cyfalaf o fewn GIG Cymru, a fydd yn gwella'r gofal y mae cleifion yn ei gael ac amodau gwaith staff.
6. Yn cadarnhau'r egwyddor sylfaenol y dylai'r GIG ddarparu gofal iechyd i bawb am ddim pan

fo'i angen.

Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:

Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol:

(1)+(2)+(3)+(5)

(4)

Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)

Ychwanegu pwynt 1 newydd ac ail rifo'r pwyntiau sy'n weddill yn unol â hynny:

Yn ailddatgan ei ymrwymiad i GIG yng Nghymru sy'n cael ei ariannu'n gyfan gwbl ag arian cyhoeddus

Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)

Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 1:

, gan sicrhau bod yr un gwasanaethau ar gael i gleifion ni waeth ble y maent yn byw.

Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)

Dileu pwynt 2 ac ail rifo'r pwyntiau sy'n weddill yn unol â hynny

Gwelliant 4 - Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)

Dileu pwynt 2 a rhoi'r canlynol yn ei le:

Yn cymeradwyo casgliadau Adroddiad Wanless mewn perthynas â Gwasanaeth Iechyd Gwladol sy'n cael yr adnoddau priodol ac sy'n cael ei adfywio, lle mae cyllid ar ei gyfer yn cael ei ddarparu yn y ffordd fwyaf effeithlon a theg trwy drethiant cyffredinol.

Gellir dod o hyd i Adroddiad Wanless ar: [http://www.hm-treasury.gov.uk/](http://www.hm-treasury.gov.uk/Consultations_and_Legislation/wanless/consult_wanless_final.cfm?)

[Consultations_and_Legislation/wanless/consult_wanless_final.cfm?](http://www.hm-treasury.gov.uk/Consultations_and_Legislation/wanless/consult_wanless_final.cfm?) - Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr

Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)

Ychwanegu ar ddechrau pwynt 4:

Yn nodi bod y GIG yng Nghymru yn gwario dros £25 miliwn y flwyddyn ar staff dros dro am na lwyddir i lenwi swyddi gwag a hefyd

Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am

9.05 am ddydd Iau, 16 Mai 2002

E P Silk

Clerc y Cynulliad